

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar
'Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru'**

1. Rwyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar 'Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Weithredol yng Nghymru'.
2. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwyf yn ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus o fewn fy awdurdodaeth, sy'n cynnwys fwy neu lai'r holl sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallaf hefyd ystyried cwynion am ofal cymdeithasol sy'n cael ei drefnu neu ei ariannu'n breifat a gwasanaethau gofal lliniarol. Rwyf yn ystyried ac yn ymchwilio i gwynion bod aelodau cyrrff llywodraeth leol wedi torri Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau eu hawdurdod. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrrff y llywodraeth.

3. Rwyf am droi'n awr at y cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori. Mae fy sylwadau isod yn rhoi sylw i'r cwestiynau hynny a fyddai naill ai'n effeithio ar OGCC, neu os wyf yn credu y gallai profiad OGCC fod yn fuddiol i Gomisiwn y Gyfraith wrth iddo ystyried hygyrchedd y gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru.

- **Cwestiwn 2 - Pwysigrwydd hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru:** 10 - Mae hyn yn eithriadol o bwysig i OGCC gan fod ein gwaith yn aml yn golygu sicrhau bod y cyrrff cyhoeddus yn ein hawdurdodaeth yn gweithredu'r gyfraith yn gywir. I wneud hyn yn effeithiol, mae angen i fy staff a minnau fod â mynediad rhwydd at y cyfreithiau sy'n weithredol yng Nghymru.
- **Cwestiwn 3 – Pa mor aml ydych chi'n chwilio am y gyfraith:** Yn ddyddiol oherwydd cwmpas fy awdurdodaeth (gweler uchod) a'r holl wahanol Statudau a Rheoliadau a fyddai'n weithredol i ystod y cwynion a gyflwynir i fy swyddfa.
- **Cwestiwn 4 – Y math o gyfraith sydd ei hangen:** Mae natur gwaith OGCC yn golygu bod angen i ni ymchwilio i'r holl fathau o gyfreithiau sy'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
- **Cwestiwn 5 – Pa bynciau ydych chi'n ymchwilio iddynt:** Fel yn achos y mathau o gyfreithiau sydd eu hangen arnom (Cwestiwn 4), rydym yn

ymchwilio i'r holl bynciau sy'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

- **Cwestiwn 6 – Pa mor hawdd yw hi i ddod o hyd i'r gyfraith sydd ei hangen arnoch:** Mae'n anodd dros ben cael mynediad a chanfod y gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru. Nid yw darparwyr cronfeydd data cyfreithiol, er enghraifft, legislation.gov.uk, Westlaw a Lexis Nexis yn diweddarau newidiadau i gyfraith Cymru mewn modd amserol. Mae'r cyfarpar chwilio deddfwriaeth ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn anodd iawn i'w ddefnyddio.

Enghraifft lle mae'r gyfraith yng Nghymru'n anhygyrch a dryslyd yw yn achos fy mhwerau i ymchwilio i gwynion bod y cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'i dorri.

Mae fy mhwerau ymchwilio i'w cael yn Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Fodd bynnag, cafodd darpariaethau perthnasol yn adrannau 60 - 63 fel roeddent yn weithredol yn Lloegr eu gweithredu yng Nghymru gan Orchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (SI 2006, Rhif 949). Pan ddiddymwyd adrannau 60 – 63 yn Lloegr gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 nid yw'r darpariaethau fel maent yn weithredol yng Nghymru bellach yn ymddangos ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru 2000 ar unrhyw un o'r cronfeydd data sydd ar gael.

- **Cwestiwn 8 – Enghraifft o rywbeth rydych wedi ymchwilio iddo ac unrhyw anawsterau a brofwyd:** Roedd enghraifft o anawsterau a brofwyd wrth ymchwilio (a chanfod gwall ar gronfa ddata gyfreithiol) yn cynnwys edrych ar statws cyfredol darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, statud San Steffan cyn datganoli ("y Ddeddf"), ar ôl pasio Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn tarddu o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Mesur").

Roedd y Mesur yn diddymu rhannu o'r Ddeddf dim ond pan oedd Gorchmynion Cychwyn yn cael eu cyflwyno i weithredu darpariaethau newydd y Mesur. Cafodd y rhain eu cyflwyno'n amrywiol dros amser er Mehefin 2011. Gwelwyd fod Lexis yn dweud bod adran 5(2) o'r Ddeddf wedi cael ei diddymu (roedd peth amheuaeth a oedd hynny wedi digwydd). Bu'n rhaid gwirio'r holl Orchmynion Cychwyn perthnasol a chanfuwyd nad oedd y ddarpariaeth benodol hon, hyd yma, wedi cael ei diddymu na'i disodli gan unrhyw ddarpariaeth gymaradwy yn y Mesur.

- **Cwestiwn 12 – Adnoddau eraill sydd ar gael:** Mae gan OGCC fynediad ar hyn o bryd at Westlaw, Lexis a Lawtel ac rwyf yn dibynnu ar fy Nghyngorydd Cyfreithiol a staff eraill i ymchwilio'r gyfraith.
- **Cwestiwn 13 – Hyder mewn cywirdeb:** 9 – Ar y cyfan, rydym yn hyderus bod yr hyn rydym yn ei ganfod yn gywir, ond y broblem yw faint o amser mae'n ei gymryd i ddod o hyd i'r hyn rydym yn chwilio amdano. [gweler yr enghraifft yng Nghwestiwn 8 uchod]
- **Cwestiwn 14 – A ydych chi wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau oherwydd anghywirdeb cyfraith:** Nid yw OGCC yn ymwybodol o unrhyw

gamgymeriadau o ganlyniad i anghywirdeb yn y gyfraith, ond dim ond trwy gymryd llawer o amser i sicrhau cywirdeb.

- **Cwestiwn 15 – Enghreifftiau o anawsterau wrth ymchwilio:** Mae enghraifft o'r anhawster wrth ymchwilio i gyfraith Cymru'n gysylltiedig â'r canlynol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi gwneud diwygiadau penodol i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2014. Ni chafodd y diwygiadau hyn eu hymgorffori yn nhestun y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fel y'i dangoswyd ar Westlaw am fisoedd lawer.
- **Cwestiwn 16 – Beth fyddai'n ei gwneud yn haws i ddod o hyd i gyfreithiau:** Byddai'n ddefnyddiol cael mynediad at gydgrynhoad o gyfraith Cymru e.e. holl ddarpariaethau llywodraeth leol mewn un man. Byddai hefyd yn hwyluso ymchwil pe byddai prif gronfeydd data'r DU yn gwerthfawrogi gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd mae'r cronfeydd data hyn yn canolbwyntio ar gyfraith Lloegr yn unig. Dylai llyfrau gosod a chyhoeddiadau craidd hefyd nodi amrywiadau yng nghyfraith Cymru a Lloegr, neu dylid cynhyrchu fersiwn Gymreig ar wahân er ein bod yn sylweddoli na fyddai hynny o bosibl yn ymarferol o safbwynt economaidd.
- **Cwestiwn 17 a 18 – Costau a arbedid pe bai'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt yng Nghwestiwn 16 ar gael:** Os oedd y gyfraith ar gael mewn fformat hygyrch, byddai hyn yn golygu y byddai staff yn treulio llawer llai o amser yn chwilio am gyfreithiau perthnasol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Hydref 2015
